S4/C rhyngwladol international

FFURFLEN GAIS

I GYNNWYS SEFYDLIAD YN Y RHESTR FER I'R TENDR AR GYFER Y

CYTUNDEB GWERTHU NAWDD A HYSBYSEBU

ENW DARPARWR Y GWASANAETH:

CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Diben y Ffurflen Gais hon yw galluogi S4C Rhyngwladol Cyf ("S4CI") i lunio rhestr fer o blith yr Ymgeiswyr hynny sydd wedi cwblhau'r Ffurflen Gais hon a'i chyflwyno i S4CI yn unol â'r amodau a'r cyfarwyddiadau a nodir isod, gydag isafswm o 5 Ymgeisydd (os bydd y niferoedd yn caniatáu) yn cael eu gwahodd i dendro am y Cytundeb Gwerthu Nawdd a Hysbysebu.

Y BROSES DENDRO

Cwlbhau a chyflwyno'r Ffurflen Gais hon yn unol â'r amodau a'r cyfarwyddiadau a nodir isod yw cam cyntaf y broses dendro hon. Yn dilyn y cam hwn, estynnir gwahoddiad i'r Ymgeiswyr hynny a gynhwysir yn y rhestr fer, i dendro. Bydd angen llenwi ymatebion i'r gwahoddiad i dendro yn unol â'r cyfarwyddiadau a nodir yn y gwahoddiad i dendro ac a gyflwynir i S4CI erbyn y dyddiad cau a nodir yn y gwahoddiad i dendro. Yn unol â'r amodau cyfranogi a nodir isod, bydd S4CI yn adolygu'r holl ymatebion y bydd S4CI yn eu derbyn er mwyn cydymffurfio â'r gwahoddiad i dendro ac efallai y bydd yn gofyn i Ymgeiswyr fynychu cyfweliadau i egluro gwybodaeth a nodwyd yn yr ymatebion tendro. Yn dilyn adolygiad o'r holl dendrau, bydd S4CI yn dewis yr Ymgeisydd llwyddiannus ar sail y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd, a fernir gan S4CI wedi'i seilio ar y meini prawf a nodwyd yn y gwahoddiad i dendro.

AMSERLEN DDANGOSOL AR GYFER Y BROSES DENDRO

Mae'r amserlen arfaethedig ar gyfer y broses dendro fel a ganlyn:	
1. Cyflwyno Ffurflenni Cais wedi'u cwblhau	12.00 canol dydd 6 Chwefror 2008
2. Hysbysiad o ganlyniadau'r broses llunio rhestr fer	*11 Chwefror 2008
3. Cyhoeddi gwahoddiad i dendro i'r Ymgeiswyr ar y rhestr fer	*wythnos yn cychwyn ar 11 Chwefror 2008
4. Cyflwyno ymatebion i'r gwahoddiad i dendro	*12.00 canol dydd 19 Mawrth 2008
5. Cyfweliadau (yn ôl yr angen)	*wythnos yn cychwyn ar 7 Ebrill 2008
6. Hysbysiad o'r penderfyniad ynghylch dyfarnu cytundeb	*16 Ebrill 2008
7. Ymrwymo i gytundeb	*20 Ebrill 2008
*Sylwer – fe allai'r dyddiadau hyn newid	

AMODAU CYFRANOGI

1. Mae S4CI yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr S4C. Mae S4C yn rhwymo i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("Deddf RhG"). Gall S4CI gyfleu unrhyw wybodaeth a ddarparir gan unrhyw Ymgeisydd i S4CI, i S4C, ac efallai y bydd gorfod i S4C ei datgelu dan ddarpariaethau Deddf RhG. Yn ogystal, efallai y bydd gorfod i S4C ddatgelu gwybodaeth a ddarparwyd gan unrhyw Ymgeisydd i S4CI os bydd S4CI yn cadw gwybodaeth o'r fath ar ran S4C. Os bydd unrhyw Ymgeisydd o'r farn bod unrhyw wybodaeth a ddarparwyd ganddo i S4CI yn unol â'r Ffurflen Gais hon o natur gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol, dylai dynnu sylw S4CI at y wybodaeth honno ac esbonio'r rhesymau dros hynny. Dylai Ymgeiswyr nodi, fodd bynnag, nad yw nodi bod gwybodaeth yn gyfrinachol neu'n sensitif yn fasnachol yn gwarantu y bydd yn rhydd o ymrwymiadau S4C i'w datgelu. Trwy lenwi a chyflwyno'r Ffurflen Gais hon, mae Ymgeiswyr yn derbyn y gallai S4C ddatgelu gwybodaeth o'r fath er mwyn ymateb i unrhyw gais dan Ddeddf RhG os bydd S4C yn pennu yn ôl ei ddisgresiwn ei fod yn briodol gwneud hynny.

2. Trwy gwblhau a chyflwyno'r Ffurflen Gais hon, mae Ymgeiswyr yn awdurdodi S4CI i brosesu'r holl wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'u cais ac yn cadarnhau eu bod wedi sicrhau'r holl ganiatâd trydydd parti angenrheidiol er mwyn galluogi S4CI i wneud hynny.

3. Trwy gwblhau a chyflwyno'r Ffurflen Gais hon, mae Ymgeiswyr yn cytuno cadw unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu y bydd S4CI yn ei darparu iddynt mewn unrhyw gyfrwng yn ystod y broses dendro hon neu mewn cysylltiad â'r broses dendro hon, yn gyfrinachol.

4. Ni fydd unrhyw Ffurflen Gais wedi'i llenwi, neu unrhyw gyfathrebu rhwng S4CI ac Ymgeisydd, yn cyfateb â chytundeb neu gynnig a allai gael ei dderbyn na dehongliad y bydd unrhyw gytundeb yn cael ei ddyfarnu. Mae S4CI yn cadw'r hawl : (a) i dynnu yn ôl o a/neu roi'r gorau i a/neu ohirio'r broses dendro hon ar unrhyw adeg; (b) i beidio dyfarnu unrhyw gytundeb o ganlyniad i'r broses dendro hon.

5. Os gwelir bod unrhyw Ffurflen Gais a gyflwynir yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd, mae S4CI yn cadw'r hawl i dynnu'r Ymgeisydd allan o'r broses dendro hon ar ba adeg bynnag y mae'r broses dendro hon wedi cyrraedd.

CYFARWYDDIADAU AR GYFER LLENWI'R FFURFLEN GAIS

1. **RHAID** i Ymgeiswyr ateb bob cwestiwn yn y Ffurflen Gais ac mae'n **RHAID** iddynt ddarparu'r **HOLL** wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y Ffurflen Gais hon. Gallai methu darparu unrhyw wybodaeth o'r fath arwain at eu gwahardd o'r broses dendro hon. Os bydd Ymgeisydd o'r farn nad yw cwestiwn penodol yn berthnasol, dylai ei farcio fel "amherthnasol" neu debyg.

2. Os yw'r Ymgeisydd yn gwmni sy'n rhan o grp o gwmnïau, rhaid i'r cwestiynau yn y Ffurflen Gais hon a'r wybodaeth a gyflwynir gael eu hateb gan neu ynghylch (yn ôl y galw) yr Ymgeisydd ac nid unrhyw rhiant-gwmni neu gwmni daliad neu gwmni grp arall.

3. Os bydd mwy nag un endid yn dymuno dod at ei gilydd i gyflwyno cais ar y cyd am y cytundeb sy'n cael ei dendro, dylai endidau o'r fath ffurfio consortiwm a dylai un endid gyflawni'r rôl arweiniol. Dylai pob aelod o'r consortiwm lenwi'r holl wybodaeth a nodir yn y ffurflen ond pan fo hynny'n briodol yn Adrannau D, E, F a G, gallant gyfeirio at Ffurflen Gais aelodau eraill y consortiwm. Os cynhwysir consortiwm ar y rhestr fer, yn unol â'r darpariaethau canlynol, cyhoeddir gwahoddiad i dendro i aelod arweiniol y consortiwm yn unig. Sylwer, os bydd consortiwm yn cyflwyno ymateb llwyddiannus i'r gwahoddiad i dendro gall S4C fynnu: (i) i'r consortiwm ffurfio endid cyfreithiol cyn ymrwymo i'r cytundeb; a/neu (ii) atebolrwydd ar y cyd ac unigol holl aelodau'r consortiwm; a/neu (iii) gwarantau a/neu ymrwymiadau gan rai neu holl aelodau'r consortiwm ynghylch rhai neu holl aelodau eraill y consortiwm.

4. Pan fo hynny'n briodol, dylai'r Ymgeisydd osod unrhyw ddogfennau atodol wrth y Ffurflen Gais hon, gan nodi enw'r Ymgeisydd a rhif y cwestiwn yn y Ffurflen Gais hon y mae'r ddogfen yn ymwneud ag ef.

CYFARWYDDIADAU AR GYFER CYFLWYNO

1. Ar ôl ei gwblhau, ac oherwydd bod angen arwyddo'r Ffurflen Gais hon, rhaid sganio a chyflwyno'r Ffurflen Gais hon ar ffurf electronig yn unig mewn neges e-bost wedi'i chyfeirio at: **commercial@s4c.co.uk** ac mae'n rhaid i S4CI ei derbyn erbyn 12.00 canol dydd ar 6 Chwefror 2008.

2. Dylid nodi "Ffurflen Gais – Cytundeb Gwerthu Nawdd a Hysbysebu" yn eglur ar y neges e-bost sy'n cynnwys y Ffurflen Gais wedi'i chwblhau.

3. Cyfrifoldeb yr Ymgeisydd yw sicrhau bod ei Ffurflen Gais yn cyrraedd S4CI erbyn y dyddiad cau a'r amser a nodwyd yn 1 uchod. Nid yw S4CI yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddiffygion mewn unrhyw system drosglwyddo nac am unrhyw Ffurflenni Cais sydd yn mynd ar goll, yn cael eu hoedi neu'n ddiffygiol. Cyfrifoldeb yr Ymgeisydd yw sicrhau fod ei Ffurflen Gais (ynghyd â'r atodiadau perthnasol) wedi eu paratoi mewn da bryd (gan gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd y gall staff fod yn absennol neu fethiannau technegol) ac y caiff eu cyflwyno cyn y dyddiad a'r amser cau. Nid ystyrir prawf o anfon y cais fel prawf o'i dderbyn ac anogir i bob Ymgeisiwr i ofyn am gadarnhad o dderbyn y cais.

4. Ni fydd unrhyw Ffurflen Gais a gyflwynir mewn unrhyw gyfrwng ac eithrio'r hyn a nodir yn 1 uchod neu a fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad a'r amser cau a nodwyd yn 1 uchod, yn cael eu hystyried.

GWYBODAETH AC ARWEINIAD

1. Dylid cyfeirio pob cais am wybodaeth bellach a/neu arweiniad er mwyn llenwi'r Ffurflen Gais hon at: **commercial@s4c.co.uk** gan nodi "Cytundeb Gwerthu Nawdd a Hysbysebu – Ymholiad" yn eglur arnynt.

2. Sylwer na ddylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am wybodaeth sy'n ymwneud â'r broses dendro hon, at unrhyw swyddog, cyflogai neu gynrychiolydd arall S4CI.

3. Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, sylwer y bydd pob cais am wybodaeth bellach a/neu arweiniad er mwyn llenwi'r Ffurflen Gais hon ac ymatebion S4CI i geisiadau o'r math ac arweiniad, yn cael eu cyhoeddi ar wefan S4C sef: www.s4c.co.uk/s4ci.

A. GWYBODAETH SYLFAENOL AM YR YMGEISYDD

Enw llawn yr Ymgeisydd .....

Rhif cofrestredig yr Ymgeisydd
(pan fo hynny'n berthnasol) .....

Cyfeiriad swyddfa gofrestredig yr Ymgeisydd (pan fo hynny'n berthnasol) neu gyfeiriad y prif fan masnachu

.....

.....

Prif rif Ffôn .....

Prif rif Ffacs .....

Manylion yr unigolyn yn sefydliad yr Ymgeisydd y dylid cyfeirio'r holl ohebiaeth atynt:

Enw: .....

Swydd: .....

Cyfeiriad: .....

Rhif ffôn: .....

Rhif ffacs: .....

Cyfeiriad e-bost: .....

A yw'r cais hwn yn cael ei wneud fel rhan o Gonsortiwm? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydy, nodwch enw'r Prif Ymgeisydd .....

B. STATWS YR YMGEISYDD

Nodwch isod a yw'r Ymgeisydd (ticiwch) yn:

☐ fasnachwr unigol

☐ partneriaeth

☐ cwmni cyfyngedig preifat

☐ cwmni cyfyngedig cyhoeddus

☐ arall (nodwch).....

C. GWYBODAETH BELLACH

Nodwch a yw'r Ymgeisydd (Ydynt/Nac ydynt):

(ticiwch y bocsys priodol)

		Ydynt	Nac ydynt
(a)	yn fethdalwr neu erioed wedi cael gorchymyn derbyn neu orchymyn gweinyddu neu orchymyn cyfyngiadau methdalu yn eu herbyn neu erioed wedi gwneud unrhyw gompownd neu drefniant gyda neu er lles eu credydwyr neu'n ymddangos na allant dalu neu nad oes unrhyw ragolygon rhesymol y gallant dalu dyled neu fod fel arall yn ansolfent yn ôl pob golwg neu'n destun deiseb ar gyfer secwestru eu hystâd	☐	☐
(b)	wedi pasio penderfyniad neu'n destun gorchymyn gan y llys i'w dirwyn i ben neu wedi cael derbynnydd, rheolwr neu weinyddwr yn cael eu penodi ar ran credydwr a benodwyd ynghylch eu busnes neu unrhyw ran ohono neu os ydynt yn destun unrhyw weithdrefnau tebyg dan gyfraith unrhyw wladwriaeth	☐	☐
(c)	neu unrhyw rai o'i gyfarwyddwyr neu unrhyw unigolyn arall y mae ganddynt bwerau cynrychioli, penderfynu neu reoli drosto, wedi cael eu dyfarnu'n euog o gyflawni trosedd sy'n ymwneud â chyflawni eu busnes neu eu proffesiwn	☐	☐
(d)	neu unrhyw rai o'i gyfarwyddwyr neu unrhyw unigolyn arall y mae ganddynt bwerau cynrychioli, penderfynu neu reoli drosto, wedi cyflawni gweithred o gamymddwyn difrifol yn ymwneud â chyflawni eu busnes neu eu proffesiwn	☐	☐
(e)	yn meddu ar unrhyw drwydded berthnasol neu aelodaeth o sefydliad priodol neu gofrestriad mewn cofrestr fasnachol neu broffesiynol, pan fo angen gwneud hynny yn unol â'r gyfraith	☐	☐
(f)	neu unrhyw rai o'i gyfarwyddwyr neu unrhyw unigolyn arall y mae ganddynt bwerau cynrychioli, penderfynu neu reoli drosto, wedi cael eu dyfarnu'n euog o gyflawni unrhyw gamliwio difrifol wrth ddarparu gwybodaeth y gofynnwyd iddynt amdani ac a oedd yn ymwneud â chaffaeliad	☐	☐
(g)	neu unrhyw rai o'i gyfarwyddwyr neu unrhyw unigolyn arall y mae ganddynt bwerau cynrychioli, penderfynu neu reoli drosto, wedi cael eu dyfarnu'n euog o gyflawni unrhyw drosedd	☐	☐
(h)	erioed wedi methu cyflawni unrhyw ymrwymiad cyfreithiol sy'n ymwneud â thalu nawdd cymdeithasol neu drethi	☐	☐

D. GALLU TECHNEGOL

Rhestrwch y mathau o wasanaethau a ddarparir gan yr Ymgeisydd yn gyffredinol, sy'n cyfateb â'r cytundeb hwn, gan ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â hanes, cefndir a phrofiad yr Ymgeisydd.

Gan gynnwys:

(a) profiad yr Ymgeisydd ym maes gwerthu hysbysebu ar gyfer sianelau teledu a/neu lwyfannau ar-lein;

(b) profiad yr Ymgeisydd ym maes gwerthu nawdd ar gyfer sianelau teledu a/neu lwyfannau ar-lein;

(c) profiad a dealltwriaeth yr Ymgeisydd o'r farchnad ar gyfer gwerthu nawdd a hysbysebu yn y DU ac yng Nghymru yn arbennig; a

(d) phrofiad yr Ymgeisydd ym maes gweinyddu gwerthu hysbysebu gan gynnwys gweithdrefnau anfonebu a rheoli credyd ar gyfer sianelau teledu a/neu lwyfannau ar-lein.

E. MANYLION CYTUNDEBAU TEBYG

Rhowch restr o gytundebau tebyg a sicrhawyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, gan nodi **dyddiadau** ac **enwau cwsmeriaid**

Enw'r Cwsmer	Dyddiadau Cytundebau	Math o Wasanaethau a Ddarparwyd

F. PERSONÉL ALLWEDDOL

Nodwch fanylion personél allweddol gan gynnwys profiad a chymwysterau'r personél allweddol a fyddai'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau perthnasol:

G. SYSTEMAU

Rhowch ddisgrifiad manwl o'r systemau a ddefnyddir i gyflawni'r cytundeb, yn arbennig, y mecanweithiau technegol er mwyn sicrhau rheoli credyd ac anfonebu amserol a manwl ynghyd â mecanweithiau adrodd.

H. SICRHAU ANSAWDD

Rhowch ddisgrifiad o'r systemau a'r mesurau a ddefnyddir i sicrhau ansawdd y gwasanaeth gan gynnwys (er enghraifft) a sicrhawyd neu a oes bwriad i sicrhau ardystiad BS EN UISO 9002 (BS 5750 yn flaenorol) (neu safon gyfatebol – nodwch). A fyddech cystal â darparu copïau o unrhyw dystysgrifau perthnasol.

I. IS-GONTRACTWYR

Rhowch syniad o'r math o waith y bydd yn cael ei his-gontractio a chyfran y cytundeb (wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y gwerth) a allai gael ei is-gontractio.

J DATGANIAD

Rydw i'n cadarnhau:

(a) fy mod yn meddu ar yr awdurdod angenrheidiol i lenwi a dychwelyd y Ffurflen Gais hon;

(b) bod yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn y Ffurflen Gais hon yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred; ac

(c) y bydd S4CI yn cael ei hysbysu os bydd unrhyw unigolyn a enwir isod yn dod yn ymwybodol bod unrhyw wybodaeth a ddarparwyd yn y Ffurflen Gais hon yn anghyflawn neu'n anghywir mewn unrhyw ffordd.

Rydw i'r cydnabod, ar ran yr Ymgeisydd, y gallai unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn arwain at wrthod y Ffurflen Gais hon neu os bydd unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn o'r fath yn cael ei darganfod yn nes ymlaen, y gallai unrhyw dendr gael ei wrthod neu unrhyw gytundeb a ddyfarnir gael ei ddadwneud.

Llofnodwyd: .....

Enw: .....

Swydd: .....

Cynrychiolydd a awdurdodwyd yn briodol
dros ac ar ran: .....

Dyddiad: .....